

## Adroddiad Blynyddol 2015 - 2016



**Llun: disgyblion dosbarth cyntaf  
Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad, Caerdydd  
Agorwyd ym Medi 2016**

Dan nawdd:



## Cynnwys

---

1. Clawr	1
2. Cynnwys	2
3. Amcanion RhAG	3
4. Adroddiad y Cadeirydd	4
5. Adroddiad ar y Siroedd	5
6. Cyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol a'r Cyfarfodydd Blynyddol	15
7. Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cymru	16
8. Adroddiad Ariannol	17
9. Canghennau Lleol	18
10. Cysylltu	19

### Swyddogion 2015/2016:

Cadeirydd:	Lynne Davies
Is-gadeirydd:	Elin Maher
Ysgrifennydd:	Lynne Griffin
Is-ysgrifennydd:	Swydd yn wag
Trysorydd:	Alan Lewis
Swyddog Cysylltiadau:	Tim Pearce
Swyddog Ymchwil:	Heini Gruffudd
Ymgynghorydd Cyfreithiol:	Michael Jones

## Pwy ydym ni?

---

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rieni sydd a diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt gwerthfawr a hanfodol rhwng rieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Derbyniwyd bellach egwyddorion sylfaenol RhAG ar lefel sirol a chenedlaethol, gan gynnwys dau beth allweddol:

- Yr angen am Strategaeth addysg Gymraeg
- Yr angen i fesur y galw am addysg Gymraeg

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd yn gyson ac yn cynrychioli rieni ar sail cenedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisiau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd a swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisiau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol

## **Adroddiad y Cadeirydd**

---

Thema ein cynhadledd eleni yw “Addysg Gymraeg: deffro a gweithredu” ac mae’n bleser croesawu ein siaradwyr gwadd heno: Gwion Lewis, bargyfreithiwr, awdur a darlledydd a fydd yn rhannu profiad ei fuddugoliaeth wrth herio yn y llysoedd, benderfyniad Cyngor Sir Ddinbych i israddio categori ieithyddol Ysgol Pentrecelyn, Sir Ddinbych.

Bu’n flwyddyn brysur arall, gyda canghennau newydd RhAG yn agor yn Wrecsam a Chanol Powys, a phob un yn gweithio’n ddiwyd i hyrwyddo addysg Gymraeg yn eu hardaloedd - a hynny’n dwyn ffrwyth gydag ysgolion newydd yn agor neu ar y gweill. Yn wir, braf iawn oedd cael cytundeb am drydedd ysgol uwchradd yng Ngwent o’r diwedd!

Amlgodd RhAG eto eleni yn y wasg ac mewn cyfarfodydd gyda’r Llywodraeth / AALI ein bod fel cenedl yn bell o gyrraedd targedau’r strategaeth addysg a bod angen o leiaf 10 ysgol neu ffrwd newydd pob blwyddyn er mwyn agosáu at y 1m o siaradwyr Cymraeg, sef targed y strategaeth newydd. Nid fydd unrhyw siawn o gyrraedd y targed hwn heb chwyldroi’r broses o gynllunio ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae’n amlwg, o’n sgysiau mewn Fforymau Addysg Gymraeg, nad yw nifer o’r siroedd wedi ymgymryd â’r feddylfryd hwn eto. Tynnwyd sylw hefyd at bolisiau sy’n tanseilio’r strategaeth, e.e., diffyg darpariaeth yn y sector cyn-statudol a chostau teithio uchel i blant ôl-16 sy’n dechrau erydu niferoedd ym mlynnyddoedd 12/13.

O dan arweiniaeth ein Cyfarwyddwr Datblygu Ceri Owen, mae RhAG wedi arwain ymgyrchoedd, ymateb i ymgynghoriadau ac apeliadau drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi bod yn ffodus iawn eto i fanteisio ar arbenigedd cyfreithiol Michael Jones, arbenigedd ymchwilio Heini Gruffudd ac arbenigedd cyfathrebu/gwefannau Tim Pearce. Rydym yn ddiolchgar iawn i’n Trysorydd, Alan Lewis, am gadw trefn ar y cyfrifon eto ac i holl aelodau’r pwyllgor cenedlaethol am eu gwaith. Diolch i’r holl rhieni a gyfrannodd o’u arbenigedd a’u hamser i gynrychioli RhAG mewn ymgynghoriadau a chyfarfodydd ledled y wlad. Diolch yn arbennig i Ceri am lywio’r llong a chydlynu pob agwedd o waith RhAG mor effeithiol.

Bydd croeso mawr i aelodau newydd ar bwyllgorau cenedlaethol a lleol eleni. Mae’n gyfle gwych i gael effaith ar hybu twf Addysg Gymraeg i’n plant.

**Lynne Davies**  
**Cadeirydd Cenedlaethol, Ionawr 2017**

## Adroddiad ar y Siroedd 2015-2016

---

### ABERTAWE

Bu'n flwyddyn rwystredig yn Abertawe. Mae dwy ysgol wedi bod yn gorlifo – Pontybrenin a Than-y-lan – a'r Sir heb ganfod lleoliadau newydd na meddwl am sefydlu ysgolion newydd. Ychwanegu cabanau dros dro yw eu hunig ateb.

Mae 8 o 11 ysgol gynradd Abertawe o fewn 10% o fod yn llawn, neu'n gorlifo, ac nid yw'r Sir wedi cynnig unrhyw ateb, ac eithrio lled awgrymu y gellir cael ysgol newydd yn sgil datblygiadau adeiladu, ac mae hyn yn annelwig. Ar y llaw arall, mae'r Sir wedi cychwyn astudiaeth dichonoldeb i symud un o'r ysgolion mwyaf llwyddiannus – Tirdeunaw – a gosod ysgol Saesneg yn ei lle. Mae'n ymddangos bod arnynt ryw gymaint o syniad o gywilydd o hyn, am nad ydynt wedi sôn am hyn yn eu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Y newyddion cadarnhaol yw bod niferoedd yn dal i gynyddu. Mae Ysgol Llwynderw bellach yn llawn yn y blynyddoedd isaf. Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn llawn, ac wedi cael adeiladau ysgol gynradd gyfagos i ehangu. Yn y cyfamser mae rhifau Ysgol Gyfun Bryn Tawe'n dal i gynyddu, a'r twf yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i Ysgol Tan-y-lan, Treforys, ac Ysgol y Cwm ddod i'w llawn dwf.

Mae pryder bod darpar rieni'n dewis ysgolion Saesneg wrth weld yr ysgolion Cymraeg yn llawn. Yn y CSGA mae Abertawe'n ceisio twyllo'r Llywodraeth trwy honni bod 10.7% o lefydd yr ysgolion cynradd Cymraeg yn wag. Mae'r rhan fwyaf o'r llefydd hyn yn Ysgol y Cwm, sydd heb dyfu i'w llawn dwf eto, ac felly chwarae â ffigurau mae'r Sir.

Mae RhAG wedi bod yn cwrdd bob tymor â'r swyddogion addysg ac â'r cynghorwyr sy'n gyfrifol am addysg. Yn anffodus, mae'r drafodaeth wedi bod dipyn yn fwy anodd ers i'r Rhyddfrydwyr Democrataidd golli rheolaeth ar y Cyngor. Cynhyrchodd RhAG ddogfen yn galw am ddwy ysgol newydd mewn mannau lle nad oes ysgolion ar hyn o bryd – yn ardaloedd Penllergaer a Chwmbwrla. Gwnaed dadansoddiad diddorol o ganrannau plant o wahanol wardiau'r ddinas sy'n mynychu addysg Gymraeg a chael bod y canrannau uchel bob amser yn cyfateb i bresenoldeb ysgolion Cymraeg. Mae'r canrannau'n amrywio o 38% i 3.5%. Mae hyn yn dangos yn glir mor bwysig yw hi i gael ysgol Gymraeg ymhob cymdogaeth.

**Heini Gruffudd**

### BLAENAU GWENT

Mae'n drawiadol bod Cynllun y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 wedi methu â chreu unrhyw dwf o gwbl mewn niferoedd absoliwt yn ystod ei oes.

Nodwn bod 36 o ddisgyblion 7 (4.6%) Blwyddyn ym mis Ionawr 2016 sy'n ostyngiad ar

ffigwr 2014/15 o 5.4%

Rydym yn cydnabod ac yn cymeradwyo buddsoddiad yr Awdurdod mewn adeilad newydd sbon ar gyfer Ysgol Bro Helyg, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod lleoliad

newydd yr ysgol yn creu heriau sylweddol iawn o ran bod yn hygyrch i bawb sy'n byw yn y cymoedd sy'n ffurfio tiriogaeth Blaenau Gwent - Sirhywi, Ebwy Fawr ac Ebwy Fach. Ni ellir disgwyl i ysgol sydd wedi ei lleoli yn yr Ebbw Fach i ddenu plant Sirhywi.

Mae tro pedol yr awdurdod ynglŷn â sefydlu dosbarth dechreuol cyfrwng Cymraeg yn Nhredegar yn parhau i fod yn benderfyniad siomedig iawn. Mae'r galw am ysgol cyfrwng Cymraeg yn Nhredegar yn amlwg heb ei ddiwallu.

Mae'n anffodus hefyd bod Cylch Meithrin Tic Toc wedi cau, fel darparwr meithrin cofrestredig yn Nhredegar, hefyd yn profi'r angen am ysgol Gymraeg yn Nhredegar.

Mae darpariaeth sy'n hygyrch ac yn lleol gyda dilyniant rhwydd yn hanfodol er mwyn i addysg Gymraeg fod yn gynnig dilys, ystyrion i rieni.

Ar ôl sefydlu ysgol ar gyfer rhan ogleddol Sirhywi, rydym yn dadlau y bydd angen ysgol arall i wasanaethu tref Glyn Ebwy o fewn 3 blynedd. Mae'n amlwg fod galw cudd yn yr ardal ar ôl profi llwyddiant sesiynau Cymraeg i Blant a gynhaliwyd yn y dref yn ystod y misoedd diwethaf. Mae angen gweithredu ar hyn cyn gynted ag y bo modd.

## **BRO MORGANNWG**

Yn natblygiad Glan Dŵr y Barri lle mae bwriad i adeiladu 2000 o dai, neilltiwyd lle ar gyfer ysgol gynradd ond mae'n debyg y bydd hi'n ysgol Saesneg ei chyfrwng yn ddi- ofyn, er gwaethaf y ffaith bod ysgolion Cymraeg y dref bron yn orlawn. Ni chredir y bydd digon o ewyllys gwleidyddol i'w throi yn ysgol Gymraeg.

Mae'r niferoedd yn lolo Morgannwg yn y Bontfaen yn gofyn am ffrwd newydd.

Yn y cyfamswer, mae'r ysgol uwchradd, Bro Morgannwg, yn cael ei hehangu gan 300 o lefydd. Wedyn bydd lle i 1,450 o ddisgyblion (hyn yn ogystal â'r rhan gynradd o'r ysgol). Cafodd y cynllun i symud Bro Morgannwg i safle ysgol uwchradd Saesneg Bryn Hafren ei wrthod y llynedd oherwydd gwrthwynebiad rhieni i gynllun i uno Bryn Hafren (ysgol merched) gydag ysgol bechgyn y Barri. Mae ill dwy yn crebachu tra y byddai safle Bryn Hafren wedi galluogi'r ysgol Gymraeg i gynyddu'n hawdd. Am y tro bydd rhaid i Ysgol Bro Morgannwg ddygymod a'i safle bresennol sydd yn prysur lenwi.

**Tim Pearce**

## **CAERFFILI**

Rhaid cydnabod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi arwain y ffordd dros y blynyddoedd diwethaf wrth ymateb yn rhagweithiol i gynyddu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg. Rydym yn pwysu ar y Sir i beidio gorffwys ar ei rhwyfau ac i barhau i ymateb yn rhagweithiol trwy ehangu'r ddarpariaeth mewn rhannau o'r Sir sydd (i) yn

gwegian dan wasgedd cynyddol am leoedd ychwanegol, (ii) angen ysgolion lleol newydd er mwyn cynnig darpariaeth o fewn pellter rhesymol

Wrth gyfeirio at y galw am greu mwy o siaradwyr Cymraeg dylid nodi ein bod ni yng Nghaerffili yn troi disgyblion i ffwrdd o'n Hysgolion Cymraeg. Gorfodir rhai rhieni i yrru

eu plant i ysgolion lleol am nad oes lle i'r plant hynny yn yr ysgol oedd eu dewis cyntaf. (Yn aml iawn yr ysgol fwyaf hygyrch yw un nad yw'n ysgol dalgyloch y plentyn). Weithiau ni wyddys bod plentyn wedi'i wrthod gan i'r rhieni osod ysgol leol fel ail neu drydydd dewis. Yna mae staff yr awdurdod, yn gwbl unol â pholisi, wedyn yn cynnig ysgol nad yw'n ysgol Gymraeg i'r plentyn. Byddai'n werthfawr, ar gyfer y dasg hon, cael gwybod yn union faint o blant a gafodd eu heffeithio fel hyn.

Mae'r nifer prin iawn o lefydd gwag sydd yn debygol o fod ar gael mewn mannau sy'n anhygyrch i blant sydd wedi methu cael mynediad i ysgol dewis cyntaf eu rhieni neu, hyd yn oed, ysgol eu dalgyloch. Felly camarweiniol yw datgan fod lleoedd gwag yn ein hysgolion am fod y rheiny yn aml yn rhy bell o gartref y plentyn e.e. Ysgol y Lawnt, Ysgol Gilfach Fargod.

Mae ystadegau, ers tro bellach, yn dangos twf yn:

- Ardal Rhisga a Cross Keys
- Canol Cwm Sirhywi
- Basn Caerffili

Mae'r Sir yn cydnabod bod ysgolion Basn Caerffili a Dwyrain Islwyn yn orlawn ac y byddant yn ystyried buddsoddi yn yr ardaloedd hyn fel rhan o gais y Cyngor o dan Fand B (2019-2024) o'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Nid yw 'ystyried' yn ddigon pendant: mae'r galw a'r angen yn ddiymwad. Mae angen ymrwymiad clir yn y Cynllun hwn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr ardaloedd hyn. Yr ateb i'r cyfaddefiad yw agor ysgolion newydd, un ar gyfer Bedwas/Tretomos/Machen i dynnu'r pwysau oddi ar Fasn Caerffili, ysgol arall ar gyfer Rhisga a thrydedd ysgol ar gyfer y Coed Duon.

Os na eir i'r afael â hyn dyw targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ddim yn gyraeddadwy.

Rhagdybir y bydd cyllid y dyfodol o law'r Cynulliad ar gyfer datblygiadau addysgol rhwng £31m a £34m ar gyfer sir Caerffili. Mae hyn yn cymharu â'r £92m a gafwyd dan y cynllun Ysgolion C21ain. Neilltuwyd tua £20m o'r arian hwn ar gyfer datblygiad y Gwyndy yn nhref Caerffili. Does wybod pa ganran o'r swm arfaethedig hyn a ddaw i ran y sector Gymraeg. Rhaid felly edrych ar yr hyn sydd ar gael o fewn y Fwrdeistref Sirol. Gwnaed cais i'r Llywodraeth rhai blynyddoedd yn ôl am gyllid i sefydlu darpariaeth bellach yn ardal Rhisga ond aflwyddiannus fu hyn. Eto, gwelwyd tair blynedd yn ôl, bod Ysgol Cwm Gwyddon, sy'n gwasanaethu'r ardal hon, ar fin dyblu ei maint ymhén wyth mlynedd ac yn orlawn. Mae'n rhaid mynd i'r afael eto â'r cynigion a wrthodwyd gan y Senedd. Mae Ysgol Bro Sannan (2004) ac Ysgol Cwm Derwen (2008) a sefydlwyd i ddarparu ar gyfer dalgyloch Ysgol Trelyn wedi llanw. Felly, mae angen edrych eto ar y dalgyloedd gan fod Ysgol Trelyn yn gorfod cymryd plant o du allan i'w dalgyloch presennol. Hefyd, mae maint a chyflwr yr ysgol ym Mhngam yn enbydus.

Mae Ysgol Gyfun Pontllanfraith yn cau a'r bwriad dan y Cynllun Datblygu Lleol gwreiddiol oedd codi tai yno. Dydy hi ddim i ni feirniadu cynlluniau adeiladu'r awdurdod ond dylid nodi bod safle'r Ysgol Gyfun yn cynnwys adeilad a fu, ar un amser, yn ysgol gynradd: Ysgol Penllwyn. Mae rhannau eraill o'r adeiladau, mae'n rhaid, a allai fod o ddefnydd yn ystod y cyfnod hwn o doriadau mewn gwariant cyhoeddus. Rhaid cydnabod bod galw am fwy o dai ond mae'n debyg mai 6,000 o dai y mae'r llywodraeth yn disgwyl i Sir Caerffili gyfrannu tuag at y galw hwn. Eto, yn ôl yr LDP, sydd bellach wedi'i wrthod, roedd yna fwriad i godi 12,000. A ellid cwtogi ar y nifer o dai drwy achub yr adeiladau hyn?

Mae'n anodd gweld pa gyfiawnhad sydd i ddymchwel adeiladau ysgol pan fydd y galw am leoedd yn sicr o gynyddu – yn y sector leol, yn ogystal â'r un Gymraeg. Dydyd ni yn RhAG ddim am fanteisio ar broblemau sectorau eraill. Ond mae'n ymddangos bod Ysgol Gyfun Cwmcarn yn cau yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Oes bosib na ellir achub ar gyfle fan hyn i barhau addysg ar y safle ac yn yr adeiladau hyn. Byddai datblygiadau yn y naill neu'r llall o'r uchod yn gwneud mwy dros wella ansawdd darpariaeth nag y bydd yn gwneud dros gynyddu'r nifer o leoedd ond, er hynny, byddai'n drist gweld methu'r cyfleoedd hyn.

Mae Ysgolion Cymraeg ardal tref Caerffili: Ysgol Gymraeg Caerffili, Ysgol y Castell ac Ysgol Ifor Bach yn orlawn a gwrthodwyd lleoedd i blant ynddynt ar gyfer mis Medi 2016 er gwaethaf ymdrechion swyddogion y sir i gynyddu rhifau safonol.

Gyda'r annigonedd sydd yn bodoli yn yr ardal hon teimlwn y dylid edrych eto ar y cynllun i fynnu bod yr adeiladwyr yn Waterloo, Machen, yn darparu ysgol fel rhan o'r ystâd sydd i'w chodi yno. Collwyd cais i ddarparu Ysgol Gymraeg yno yn 2008 wrth i rieni disgyblion ysgol Rhydri geisio adeilad newydd yno ar gyfer eu plant nhw. Ond nid yn union yr un plant na'r un rhieni sydd yno erbyn ac mae lle i gredu bod agweddau yno wedi newid.

Er bod agor Ysgol y Gwyndy yng Nghaerffili wedi datrys y problemau sy'n codi yn sgîl y cynnydd yn rhifau Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, mae'r ffigyrau'n dangos y bydd angen rhyw ddarpariaeth bellach yn ystod y 7 neu 8 mlynedd nesaf. O ddysgu cymaint o amser y cymerwyd i sefydlu'r Gwyndy mewn adeilad gwag oedd ar gael, mae'n bryd ystyried darpariaeth uwchradd bellach nawr. Dydy Cynllun diweddaraf y Sir ddim yn mynd i'r afael â hyn.

**Ben Jones**

## **CAERDYDD**

Cafwyd nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; nodwn mai'r cynllun pwysicaf oedd i agor Ysgol Hamadryad gyda 2FE; yr ail oedd i ychwanegu 1FE at Ysgol Glanmorfa; y trydydd oedd ychwanegu 3 lle at Ysgol Glan Ceubal; yn olaf rhoddwyd sail statudol at godi rhif mynediad Y Wern i 75. Cyfanswm o 108 lle ychwanegol. Ar ben hyn oll bu'n rhaid ehangu'r ddarpariaeth ymhellach yn Ysgol Y Wern drwy ychwanegu 15 lle heb sail statudol i gyrraedd 90 lle. Dyma gynnydd o 123 lle yn deillio o gynigion yn ystod oes y Cynllun cyntaf (2014-17).



Cafwyd 7% o dwf yn 2016, ac mae'n hysbys bod ysgolion newydd sbon, fel y bydd Hamadryad a Glanmorfa, yn chwyddo'r galw'n sylweddol. Mae profiad Ysgol Treganna a'r Berllan Deg yn cadarnhau hyn.

Wrth edrych ar y manau sydd â'r gwasgedd mwyaf ar leoedd, mae dalgylchoedd Penycae, Nant Caerau, Coed-y-gof, Gwaelod-y-garth a Creigiau ar frig y rhestr honno, a'r holl ardaloedd hynny yng ngorllewin y ddinas. Nodwn bod Penycae a Nant Caerau wedi eu gordanysgrifio yn flynyddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Nid oes modd ymestyn ar eu safleoedd presennol. Mae Gwaelod-y-garth yn llawn a'r nifer blynyddol gaiff eu derbyn bellach yn 30, er mai Rhif Derbyn o 26 sydd gan yr ysgol. Mae gan Creigiau fel arfer 3 neu 4 leoedd heb eu llenwi ond yn bell o ddalgylchoedd ysgolion eraill. Mae Coed-y-gof fel arfer ychydig dros hanner llawn ym mis Ebrill, ond yn llawn erbyn mis Medi.

Caiff y sefyllfa ei chymhlethu ymhellach gan 2 datblygiad tai sylweddol, sef Melin Trelái a datblygiad Plasdŵr, sy'n ymestyn o Orllewin Radur trwy Rhydlafer i Creigiau. Mae datblygiad Melin Trelái yn fwy datblygedig na'r un yn Rhydlafer; ond bydd y ddau yn sicr yn cynyddu poblogaeth ysgol yng Nghaerdydd a'r galw am addysg Gymreg i'r gorllewin o afon Taf. Gan mai ysgol ddalgylch Radur yw Coed-y-gof, rhagwelir pwysau ychwanegol yno yn sgil y datblygiad hwn, ac oherwydd hynny bydd yn methu derbyn gorlif plant o Pencae a Nant Caerau.

Mae'n siomedig nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn bwriadu agor un ysgol gynradd ychwanegol rhwng nawr a 2020, boed hynny trwy ehangu ar safleoedd presennol neu ar safleoedd eraill. Mae'r angen ledled y ddinas wedi 2018 yn glir, a'r angen yn y gorllewin eisoes yn amlwg nawr.

Darpariaeth cynradd newydd sydd ei angen yn ystod y blynyddoedd nesaf:

- Mae angen agor dosbarth dechreuol newydd i wasanaethu trigolion cynnar datblygiad newydd Rhydlafer gyda'r bwriad o drosglwyddo i adeilad newydd 2FE maes o law;
- Ffrwd ychwanegol i wasanaethu Melin Trelái a derbyn gorlif Treganna;
- Ffrwd ychwanegol i dderbyn gorlif Nant Caerau;
- Ychwanegu ffrwd i'r ddarpariaeth yn Llandaf i leddfu'r pwysau presennol ar leoedd ac i ymdopi â'r galw tebygol yn sgil datblygiadau tai ar safle'r BBC;

Pwysleisiwn bod angen cynllun manwl ar gyfer ysgol #4 fel y bydd ar agor pan fydd y 3 ysgol uwchradd wedi cyrraedd llawn dwf. Mae hynny'n golygu dechrau ar y gwaith cynllunio yn 2018, eto gan dderbyn na fyddai angen gweithredu'r cynllun cyn 2022.

Nodwn hefyd bod angen sefydlu dalgylch swyddogol ar gyfer Ysgol Hamadryad ar fyrder.

Mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd angen darpariaeth bellach i wasanaethu'r datblygiad adeiladu yn Llys-faen / Pontpennau cyn 2020, serch hynny dylai'r Cynllun ddechrau gwneud paratodau ar gyfer cynlluniau i ddiwallu'r galw yno.

Mae'n amlwg y bydd maint tebygol carfannau Derbyn i Addysg Gymraeg yn gofyn am gynnydd i 29FE erbyn 2019 a 30FE erbyn 2020.

## **CASNEWYDD**

Bu'n flwyddyn lawn i ardal Casnewydd unwaith eto eleni gyda nifer o heriau yn ein hwynebu.

### **Blynyddoedd Cynnar a Chyn-Ysgol**

#### **Cylchoedd Meithrin:**

Mae'r sector yn parhau yn her i'w sefydlogi yng Nghasnewydd yn bennaf oherwydd yr angen i sicrhau cyflenwad digonol o staff sydd wedi cymhwyso hyd at lefel 3 a 5 mewn Datblygiad a Gofal Plant ac sydd yn medru'r Gymraeg. Y mae 2 gylch Meithrin yn parhau sef Cylch y Delyn yn ardal San Sulien a Cylch Meithrin Tŷ Norfolk. Mae Cynogr Dinas Casnewydd wedi nodi yn y CSGA drafft diweddaraf y bydd strategaeth benodol ar y sector hwn yn y ddinas sy'n cyfuno cynlluniau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Strategaeth Cymraeg Mewn Addysg y Sir y cael ei lunio fel bod yna gynllunio bwriadus ar draws y rhaglenni er budd twf Addysg Gymraeg.

#### **Dechrau'n Deg:**

Braf yw medru nodi bod yr ail gylch Cymraeg Dechrau'n Deg wedi agor erbyn hyn yn ardal Alway / Ringland ar ochr ddwyreiniol y ddinas. Mae Cylch Tŷ Blossom a Dewin Disglair yn derbyn cymorth gan Mudiad Meithrin.

#### **Ysgolion Cynradd:**

Mae'r tair Ysgol gynradd sef Ysgolion Cymraeg Casnewydd, lfor Hael a Bro Teyrnion yn llenwi. Mae Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion wedi hen ymgartrefu ar safle Brynglas ac wedi cyrraedd blwyddyn 5. Bu gwaith mawr yn adeiladu dosbarth Meithrin newydd ar safle Bro Teyrnion ac lfor Hael yn rhan o gyllid C21ain Llywodraeth Cymru. Mae safonau'r tair Ysgol yn uchel gydag Estyn wedi ymwled â dwy yn y flwyddyn diwethaf a derbyn canmoliaeth fawr. Yr ydym yn rhagweld y bydd gwaith i agor y bedwaredd Ysgol Gynradd yn gorfod cychwyn yn y flwyddyn nesaf gan fod niferoedd codi'n dair wedi

codi eleni ac yr ydym yn aros i weld beth fydd effaith agor Ysgol Gyfun Gwent Is Coed hefyd ar y niferoedd ceisiadau i'r dosbarthiadau Derbyn ym Medi 2017. Y mae cynlluniau i adeliadu ysgolion newydd yn y ddinas ac yr ydym yn pwysu ar Gyngor Dinas Casnewydd i sicrhau bod Ysgol Gymraeg yn rhan o'r cynlluniau hyn. Yn ddelfrydol, rhaid i'r Ysgol hon fod ar ochr orllewinol y ddinas, yn weddol agos i safle parhaol Ysgol Gwent Is Coed.

#### **Uwchradd:**

Braf yw cael nodi agoriad Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ym Medi 2016! Mae 81 o blant wedi ymgartrefu ar safle Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion ac y mae'r Ysgol yn paratoi ar gyfer yr ail flwyddyn yn barod. Mae gwaith adeiladu'r Ysgol barhaol yn mynd rhagddo hefyd yn ardal Dyffryn a bydd yr adeilad yn barod i symud iddo erbyn Medi 2018.

#### **Cludiant ôl-16:**

Siom o'r mwyaf i ni yw'r ffaith nad yw'r sefyllfa hon wedi newid dim ers i ni godi'r mater gyda Chyngor Dinas Casnewydd y llynedd. Y mae disgyblion Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i dalu £370 y flwyddyn i gyrraedd Ysgol Gyfun Gwynllyw. Y mae'r gost heb os wedi cael effaith ar allu teuluoedd i barhau i ddanfôn eu plant i'r chweched dosbarth a derbyn addysg Gymraeg ôl 16, ond y mae nifer o rieni yn nodi nad oes ganddynt y

dewis ond gwneud hyn ac felly y mae herio'r penderfyniad – a wnaethpwyd heb ymgynghoriad yn ein barn ni, yn anodd. Nid yw'r datganiad yn y Cynllun Strategol yn diwallu anghenion y strategaeth yn ein barn ni ond tra bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fethu â deall yr anghyfiawnder a'r niwed yn mae'n gwneud i ddiwallu targedau ein hun, yr ydym mewn sefyllfa anodd iawn.

### **Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd a Chonsortiw Addysg Rhanbarthol y GCA**

Mae cynrychiolaeth o RhAG yn parhau i eistedd ar Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd a'r Consortiw Addysg Lleol (GCA). Bu nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn gyda nifer o drafodaethau diddorol a bywiog. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod o fudd mawr i fwydo Strategaethau Addysg Gymraeg y Siroedd ac wedi bod yn gyfle i lenwi bylchau amlwg. Os dymuna unrhyw un weld cofnodion y cyfarfodydd hyn yna cysylltwch â mi.

**Elin Maher**

### **CNPT**

Mae agoriad adeiladau newydd ar safle Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera a'r cynllun i sefydlu ysgol 3-18 oed ar y safle hwnnw'n ddatblygiadau positif sydd i'w croesawu. Mae ymrwymiad y Cyngor Sir i agor ysgol uwchradd arall yn ne'r sir hefyd yn ddatblygiad i'w gefnogi gan bod rhieni, disgyblion ac athrawon wedi bod yn galw am ysgol uwchradd Gymraeg ym Mhort Talbot ers degawdau. Wedi Medi 2018 ni fydd yn rhaid i ddisgyblion wynebu taith fws hir i gyrraedd yr ysgol. Er y newyddion da yma, mae'n siom i nodi fod Cynllun Strategol Addysg Gymraeg y sir yn annigonol ac yn ddiffygiol. Nid oes gan y cyngor sir gynllun i ddatblygu addysg gynradd Gymraeg yn yr ardal er y galw amlwg amdani. Mae RhAG yn lleol yn parhau i bwysu ar y cyngor sir i agor ysgolion cynradd Cymraeg newydd a datblygu safleoedd megis yr ysgol gynradd boblogaidd yng Nghastell-nedd. Mae denu rhieni yn rheolaidd i gyfarfodydd pwyllgor yn parhau i fod yn broblem ond rydym yn nawr yn cydweithio â'r Fenter Iaith er mwyn cefnogi ein hymdrechion.

**Roger Williams**

### **DINBYCH**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mynychwyd cyfarfodydd Fforwm Addysg Gymraeg y sir a chyfarfodydd Ymgyrch Pentrecelyn.

Roeddem yn eithriadol falch o'r penderfyniad terfynol a wnaethpwyd parthed Ysgol Pentrecelyn, sydd wedi sicrhau:

Dewis clir i rieni parthed cyfrwng iaith addysg eu plant.

Ymateb i ddyheadau rhieni parthed cyfrwng iaith addysg eu plant

Ymrwymiad sylfaenol i ddatblygu a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'n hollbwysig nad oes unrhyw gynigion i ad-drefnu neu resymoli trefniadaeth lleoedd ysgolion yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol allai arwain at lastwreiddio natur ieithyddol y ddarpariaeth.

Cyflwynwyd ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Nodwn bod y Sir yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar bolisi cludiant; mae pryderon yn lleol o ran effaith y newidiadau arfaethedig ar hyrwyddo mynediad at addysg Gymraeg i bob disgybl. Bydd y gangen yn ymateb i hyn maes o law.

**Elfed Williams**

## **MYNWI**

Ar ddiwedd 2015-16, dwy ysgol gynradd gymraeg oedd yn Sir Fynwy, fel ar ddiwedd y flwyddyn cynt. Ond mae hyn yn cuddio twf mawr yn niferoedd plant yn y sector. Mae Ysgol y Fenni eisioes yn orlawn yn CA1 a CA2 a'r pwynt yn dod yn fuan pan fydd yn hollol llawn. Rydyn ni wedi bod yn pwysu yn y fforwm addysg am gael ysgol ychwanegol yn Nhrefynwy ac yn gobeithio bydd cyfuniad o arolwg newydd, a diffyg llefydd sbâr yn y Fenni yn galluogi i hyn ddigwydd cyn bo hir. Daeth newyddion da iawn gyda chytundeb i agor Ysgol Gwent Is Coed (Casnewydd, agor Medi 2016), a fydd yn rhoi opsiwm mwy lleol i blant Ysgol y Ffin am eu haddysg uwchradd.

**Lynne Davies**

## **PEN-Y-BONT AR OGWR**

Mae Ysgol Bro Ogwr wedi bod dan ei sang ers rhai blynyddoedd bellach. Mae mesurau tymor byr wedi lleddfu ychydig ar y sefyllfa ond mae pwysau ar adnoddau canolog yr ysgol e.e. neuadd, ffreutur a mannau chwarae yn anghynladwy. Mae angen datrysiad tymor hir er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau cynyddol ar leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Mae angen clir am ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu de-ddwyrain / gogledd-ddwyrain Pen-y-bont, yn enwedig yng ngoleuni datblygiadau tai newydd yn yr ardal. Rydym yn annog CBSP i wneud hyn yn flaenoriaeth o fewn oes y Cynllun hwn.

Mae RhAG wedi awgrymu model y dosbarth cychwynnol a fabwysiadwyd yng Nghaerdydd fel datrysiad. Roedd trafodaethau ar droed i agor darpariaeth newydd ar safle Ysgol Gyfun Brynteg yn nhref Pen-y-bont. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud hyd yn hyn sydd yn peri pryder.

Er ein bod yn cydnabod y buddsoddiad sylweddol mewn adeilad newydd-ar gyfer Ysgol Cwmgarw, fydd yn adleoli i Betws, ni fydd yn creu unrhyw leoedd cynradd newydd ychwanegol. Nid ydym yn cytuno ag awgrym y Sir, mai adolygiad o ddalgylchoedd rhwng YG Bro Ogwr ac YGG Cwmgarw yw'r ateb i orlenwi ym Mro Ogwr.

Mae potensial sylweddol ar gyfer datblygu ysgol Gymraeg newydd yn ardal Pencoed i wneud y mwyaf o'r niferoedd cynyddol sy'n ceisio am le mewn addysg Gymraeg yn ardal Penybont yn sgil yr holl waith adeiladu newydd yn yr ardal.

Mae Porthcawl yn ardal amlwg lle mae angen agor ysgol Gymraeg. Byddai hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol o ran gwella cyfraddau trosglwyddo rhwng y Blynyddoedd Cynnar a CA1.

Dyma fydd blaenoriaethau'r gangen wrth barhau i ddadlau a phwysu ar y Cyngor bod angen agor ysgolion newydd yn Sir.

**Lisa Wilson**

## **POWYS**

### **Gogledd Ddwyrain Powys**

Ddechrau 2016 trosglwyddodd Ysgol Dafydd Llwyd, Y Drenewydd i'w cartref newydd mewn adeilad braf a thrawiadol sydd wedi bod yn ffrwyth blynyddoedd o ymgyrchu a fydd yn galluogi datblygiad pellach addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Er y canmol yn yr agoriad swyddogol bu i gadeirydd y llywodraethwyr, Hywel Lovgreen, atgoffa'r gwahoddedigion nad oedd y dilyniant o addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg fel ag y mae yn dderbyniol.

Ym mis Medi 2016 mewn cyfarfod cyhoeddus yn Y Trallwng cafwyd cefnogaeth glir i gynlluniau'r awdurdod i sefydlu ysgol gynradd benodedig cyfrwng Cymraeg yn Y Trallwng. Roedd hyn yn hollol groes i beth ddigwyddodd llai nag 20 mlynedd yn ôl pan fu i un rhiant gyda chefnogaeth cynghorwyr tref a sir lwyddo i rwystro cynlluniau'r cyfarwyddwr addysg ar y pryd. Yn yr ymgynghoriad diweddaraf ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r ysgol gynradd benodedig Cymraeg ac fe dderbyniwyd y cynllun gan y Cabinet yn Ionawr 2017.

Yn Ionawr 2015 cyhoeddodd yr awdurdod eu bod am adolygu addysg uwchradd yn y sir gan ystyried sefydlu ysgol neu ysgolion uwchradd 2A yn y gogledd. Er derbyn yr argymhelliad "ei bod yn ddymunol" i sefydlu ysgol neu ysgolion uwchradd 2A yng Ngogledd Powys yn 2015 gohiriwyd cyhoeddi unrhyw gynllun busnes tan y gwanwyn 2016, yna tan ddiwedd 2016 a bellach tan fis Mai 2017. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod 2016 gan rieni fel rhan o'r ymgyrchu i gael ysgol 2A i'r gogledd ddwyrain.

**Rhisiart Owen**

### **Canol/ De Powys**

Cafodd RhAG Canolbarth Powys ei ffurfio ym mis Tachwedd 2016, i ddechrau gan grŵp o rieni o Ysgol Trefonnen, Llandrindod. Roeddem yn bryderus ynghylch effaith lleihau nifer dosbarthiadau'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol gynradd, ac fe gytunwyd i ysgrifennu at yr ysgol yn amlinellu ein pryderon. Ers hynny, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn gweithio i fynd i'r afael â rhai o'n pryderon fel rhieni.

Ym mis Rhagfyr 2016 ehangwyd y grŵp i ymdrin â materion yn ymwneud ag addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, yn benodol y cynlluniau i uno Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt (lle mae ffrwd Gymraeg) ac Ysgol Uwchradd Llandrindod. Anfonodd RhAG Canolbarth Powys lythyr at Cyngor Sir Powys yn cyflwyno gwrthwynebiad swyddogol i'r hysbysiad statudol i gau'r ddwy ysgol ac ar hyn o bryd rydym yn aros am benderfyniad ynghylch hynny.

Ym Ionawr 2017 cynhaliodd y gangen ei gyfarfod ehangach cyntaf, gan wahodd rhieni o'r Cylch Meithrin lleol, Ysgolion Cynradd Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr, ynghyd ag Ysgol Trefonnen a rhieni Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt. Er gwaethaf yr eira, daeth 11 ohonom ynghyd a thrafodwyd nifer o faterion o ran sefyllfa'r Cylch / sector Cynradd / sector Uwchradd y byddem yn hoffi tynnu sylw atynt. Cawsom gyfle hefyd i drafod ein hymateb i'r ymgynghoriad ar ddrafft CSGA Powys (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn

Addysg). Cyflwynwyd ein hymateb ar ddiwedd Ionawr, gan gynnwys cynnig bod hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gryfhau yn sylweddol, bod yr uchelgais ar gyfer darparu addysg Gymraeg yn gyfartal yng Ngogledd, Canolbarth a De Powys a bod yr adolygiad arfaethedig o ddarpariaeth gynradd yng Nghanolbarth Powys yn cael ei symud ymlaen i 2017.

Mae'r gangen yn edrych ymlaen at fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn ein cyfarfod ym mis Ionawr ac yn gweithio gyda Cyngor Sir Powys, yn ogystal â'u herio, i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal

**Freddy Greaves**

## **RhCT**

Bu awdurdod RhCT yn paratoi ei strategaeth ar addysg Gymraeg yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, a cafwyd cais i RhAG gyflwyno sylwadau. Cafwyd ymateb lled-bositif i'r sylwadau roddwyd, gyda'r awdurdod yn son am ymgyrch hybu addysg Gymraeg, er nad oedd targedau pendant yn cael eu nodi. Bu son yn ogystal am arbrofi gyda'r Gymraeg yn gyfrwng dysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion 'Saesneg'. Mae hyn, wrth gwrs, yn hanfodol ar gyfer cyrraedd y miliwn siaradwyr. Serch hyn, mae'r sir yn cydnabod na allant gyrraedd eu cyfran o'r targed miliwn o siaradwyr erbyn 2050 gyda phethau fel ag y maent, ac y bydd angen cynlluniau pellach yn y blynyddoedd nesaf i ddatrys hyn. Yn arbennig, mae angen i RhAG wneud yn siwr bod Addysg Gymraeg ddigonol yn cael ei greu lle mae datblygiadau tai sylweddol o fewn y sir.

**Helen Prosser a Dafydd Roberts**

## **WRECSAM**

Nid yw'r darlun cyfredol wedi gwella ryw lawer ers llynedd. Mae nifer o rieni yn parhau i gael trafferth sicrhau lle i'w plentyn mewn dosbarth Derbyn a Meithrin o fewn pellter rhesymol i'r cartref. Roedd un enghraifft o frawd a chwaer yn cael eu gwahanu a berodd poen meddwl aruthrol i'r teulu wrth geisio am le ar gyfer dosbarth Derbyn. Nid oedd hi'n anghyffredin clywed am deuluoedd yn gorfod hepgor un os nad dwy ysgol agosach i'r cartref i'r plentyn fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn anffodus, rydym yn ymwybodol o rieni sydd bellach wedi derbyn lle i'w plentyn mewn ysgol cyfrwng Saesneg ar ôl i'r cyngor wrthod lle mewn ysgol cyfrwng Cymraeg iddynt, ac eraill nad sydd wedi trafferthu ceisio am le gan eu bod yn ymwybodol bydd hyn yn golygu teithiau hir i'r ysgol.

Mae'r cyngor wedi paratoi CSGA sydd yn wan iawn. Y gobaith yw y bydd modd dwyn perswad ar y cyngor bod angen dogfen llawer cryfach rhag iddi gael ei gwrthod gan Lywodraeth Cymru.

Cafwyd datganiad diddorol yng nghyfarfod Pwyllgor Gweithredol y cyngor ym mis Rhagfyr. Dywedodd y swyddog addysg bydd y cyngor yn ystyried safleoedd ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg arall yn y Gwanwyn. Dywedodd cynghorydd sydd yn arwain y portffolio addysg bod y cyngor bellach yn sylweddoli bydd angen ystyried ail ddarpariaeth uwchradd yn fuan.

Ar hyn o bryd mae ymgyngoriad er mwyn cymeradwyo newid statws ieithyddol Ysgol Cynddelw, Glyn Ceiriog, o fod yn ysgol ddwyieithog i fod yn un benodedig Gymraeg.

O safbwynt cadranhaol, mae'r diddordeb a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg o fewn Awdurdod Lleol Wreccsam yn ymddangos fel petai'n parhau'n uchel.

**Rhodri Davies**

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

---

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

20/4/15

8/6/15

28/9/15

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: 23 Ionawr 2016

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol yn fisol, fel arfer ar drydydd nos Lun y mis, a hynny ar ffurf cylchdaith mewn amrywiol ardaloedd, sydd fel arfer yn cynnwys Pencoed, Caerdydd a Maesaleg ger Casnewydd. Cynhelir y cyfarfodydd am 7.30 y.h. Gellir darllen y cofnodion ar ein gwefan: <http://www.rhag.net/dogfennauc.php>

### Eisteddfodau a gwyliau cenedlaethol

#### **Cyfarfod Cyhoeddus 2016**

#### **Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fynwy a'r Cyffiniau**

#### **Y Cam nesa i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg: cyfrifoldeb pwy?**

Trafodaeth yng nghwmni panel o siaradwyr gwadd

Cadeirydd: Dr Dylan Foster Evans

- Rhian Dafydd
- Lynne Davies
- Mary Wiliam

#### **3.30 y.p. Dydd Mercher 3 Awst 2016**

#### **Pabell Cymdeithasau 2**

## Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

---

### Cyfarfodydd gydag ACau:

Aled Roberts AC  
Suzy Davies AC  
Leanne Wood AC

### Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:

6/11/15      13/10/15      12/1/16

### Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg

Mae cynrychiolaeth gan RhAG yn eistedd ar y canlynol:  
Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Caerffili; Caerdydd; Casnewydd; Pen-y-bont ar Ogwr;  
Rhondda Cynon Taf; Merthyr; CNPT; Sir Fynwy a Wrecsam.

### Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Iaith

Torfaen; Mynwy; Blaenau Gwent; Merthyr, Pen-y-bont ar Ogwr, RhCT

### Dathlu'r Gymraeg

Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn bu Swyddog RhAG ynghlwm â'r gwaith o weinyddu ysgrifenyddiaeth Grŵp Trawsbleidiol dros y Gymraeg.

### Cronfa Glyndŵr

Mae Swyddog Datblygu yn cynrychioli RhAG ar bwylgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd ar foreau Sadwrn bob chwarter.

### Apeliadau

Bu RhAG yn cynrychioli 9 teulu a 13 plentyn mewn apeliadau cludiant ym Mhowys. Bu'r holl apeliadau yn llwyddiannus (21/5/15). Cynrychiolwyd 3 teulu arall ar achlysur ychwanegol (18/9/15).

### Pwyllgorau'r Cynulliad

Bu RhAG yn cyflwyno tystiolaeth gerbron Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Mehefin 2015



1 Chwefror 16

**RhAG – ADRODDIAD ARIANNOL BA 15/16**

**Mewn Llaw ar 1 Ebrill 15** £9,950.50

**Derbyniadau 1 Ebrill 15 – 31 Mawrth 16**

Tal Aelodaeth	£7.00
Grant Llywodraeth Cymru	£25,765.99
Cyfarfod Blynyddol	£187.00
Eraill	£300.00

**Is Cyfanswm Derbyniadau** £26,259.99

**Cyfanswm Derbyniadau BA 2015/16** £36,210.49

**Gwariant 1 Ebrill 15 – 31 Mawrth 16**

Costau Cyflogi Swyddog	
Costau Tal	£26,309.72
Costau Redeg Y Swydd	£124.17
Pensiwn	£1,904.88
Teithio	£1,223.24
Treuliau	£807.94
Ffon Symudol	£220.00
Yswiriant	£431.41
Cynhyrchu RhAG Olwg	£2,101.80
Rhedeg Gwefan RhAG	£86.40
Rhentu Swyddfa	£0.00
Cynadleddau a Chyfarfodydd	£152.04
Eraill	£50.00
Datblygiad Proffesiynol	£0.00

**Cyfanswm Gwariant BA 2015/16** £33,411.60

**Mewn Llaw ar 1 Ebrill 16** £2,798.89

Wedi ei arwyddo gan un neu ddau ymddiriedolwr ar rhan yr ymddiriedolwyr i gyd.

Llofnod	Enw	Dyddiad Cymeradwyo
<i>Alan R Lewis</i>	<i>Alan Lewis</i>	<i>1 Chwef 17</i>

## Canghennau Lleol - Cysylltiadau

Sir	Enw	E-bost
Abertawe	Heini Gruffudd	<a href="mailto:heinigruffudd@btinternet.com">heinigruffudd@btinternet.com</a>
Blaenau Gwent	Meryl Darkins	<a href="mailto:meryl.darkins@btinternet.com">meryl.darkins@btinternet.com</a>
Bro Morgannwg	Tim Pearce	<a href="mailto:t.j.pearce@ntlworld.com">t.j.pearce@ntlworld.com</a>
Caerdydd	Nona Gruffudd- Evans	<a href="mailto:nona.angharad@gmail.com">nona.angharad@gmail.com</a>
Casnewydd	Michael Jones Elin Maher	<a href="mailto:mikeandethni@gmail.com">mikeandethni@gmail.com</a> <a href="mailto:elin.maher@ntlworld.com">elin.maher@ntlworld.com</a>
Castell-nedd Port Talbot	Roger Williams	<a href="mailto:rogwilliams@mac.com">rogwilliams@mac.com</a>
Caerffili	Ben Jones	<a href="mailto:benamary2000@yahoo.co.uk">benamary2000@yahoo.co.uk</a> <a href="mailto:elfedhuw@yahoo.co.uk">elfedhuw@yahoo.co.uk</a>
Sir Ddinbych	Elfed Williams	<a href="mailto:Lynne.davies@cancer.org.uk">Lynne.davies@cancer.org.uk</a>
Mynwy	Lynne Davies	<a href="mailto:Lynne.davies@cancer.org.uk">Lynne.davies@cancer.org.uk</a>
Pen-y-bont ar Ogwr	Lisa Wilson	<a href="mailto:lbarney@sky.com">lbarney@sky.com</a>
Powys (Aberhonddu / Pontsenni)	Lynne Griffin	<a href="mailto:lynnegriffin@gmail.com">lynnegriffin@gmail.com</a>
RhAG Canol Powys	Freddy Greaves	<a href="mailto:fred_greaves@hotmail.com">fred_greaves@hotmail.com</a>
Buallt (Llanfair-ym- Muallt a'r Cylch)	Stephen Mason	<a href="mailto:coednorth@tiscali.co.uk">coednorth@tiscali.co.uk</a>
Rhondda Cynon Taf	Dafydd Roberts	<a href="mailto:dafydd@glancreigiau.plus.com">dafydd@glancreigiau.plus.com</a>
Torfaen	Glyn Davies	<a href="mailto:Glyndavies47@aol.com">Glyndavies47@aol.com</a>
Wrecsam	Rhodri & Eleri	<a href="mailto:rhag.wrecsam@gmail.com">rhag.wrecsam@gmail.com</a>



## Cysylltu

---

Ceri McEvoy  
Cyfarwyddwr Datblygu  
Rhieni dros Addysg Gymraeg  
Tŷ Cymru  
Greenwood Close  
Parc Busnes Porth Caerdydd  
Caerdydd  
CF23 8RD

02920 739207  
07912175403  
[ceri@rhag.net](mailto:ceri@rhag.net)

[www.rhag.net](http://www.rhag.net)

Facebook: <http://www.facebook.com/rhieni.gymraeg>

Trydar: @RhAG1